

Llanw Llŷn

RHIF 278

MEHEFIN 2001

35c

Rhaid Atal y Mewnlfriad! Tai a Swyddi i Bobl Leol!

Cyfarfod Sefydлу

CYMUNED

Grŵp newydd i weithredu dros yr ardaloedd Cymraeg

Cynhelir am 11.30 o'r gloch
fore Sadwrn, Gorffennaf 7 yn Neuadd Mynytho
SIARADWYR O FRI

Cadwch y dyddiad yn wag a dewch i gefnogi

Enillwyr Tlws Ysgrifennu Llanw Llŷn 2001

OS am fod yn sgrifennwr, mae'n fanteisiol os mai Elin ydi'ch enw, dyna'r neges wrth i ni gyhoeddi enwau buddugwyr cystadleuaeth Tlws Sgrifennu'r Llanw am eleni. Daeth chwech i'r brig - i gyd yn ferched, i gyd o Ysgol Botwnnog, ac Elin ydi enw cyntaf pump bhonyn nhw.

Y beirniad eleni oedd Glyn Roberts, Pwllheli. Fel cyn-athro, ac, (ymhlith llawer o bethau eraill) fel cyn-golofnydd difyr iawn i'r papur hwn, roedd ganddo syniad go lew beth yr oedd yn chwilio amdano, a chafodd ei blesio. 'Pleser pur a braint oedd cael bwrw golwg dros y cynhyrchion,' meddai. 'Cafodd y bobl ieuaic hyn hyfforddiant trylwyr gan athrawon cydwybodol, a braf ydi cael mynegi hyn yn yr oes od hon pan na pherchir llafur athrawon. Clamp o job oedd dewis y gorau o griw da.'

Dyma'r buddugwyr:

1: Elin Angharad Jones o Forfa Nefyn;

Cydrad 2: Elin Angharad Thomas o Lanengan a Nia Wyn Williams o Lanbedrog;

Cydrad 3: Elin Rhydderch, Tudweiliog, Elin Angharad Thomas, Llanengan ac Elin Mared Roberts, Morfa Nefyn.

Bydd eu gwaith a phigion o'r feirniadaeth yn ymddangos yn y Llanw dros y misoedd i ddod gan ddechrau gyda stori Elin Angharad Jones y mis nesaf.

Roc a Rôl ar Nosweithiau Haf

Llongyfarchiadau mawr i bawb a fu'n rhan o'r cynhyrchiad llwyddiannus o'r sioe Grŷs a lenwodd Neuadd Dwyfor dros bedwar perfformiad ddiwedd y tymor diwethaf. 'Roedd yr ymateb yn ysgubol,' yn ôl Mair Gruffydd oedd yn gyfrifol am y cynhyrchiad ar y cyd â Gareth

Hughes Jones a Sarah Mumford. 'Mae'r criw wedi bod yn hawdd iawn i weithio gyda nhw ac rydw i'n edmygu eu talent a'u hagwedd broffesiynol. Diolch hefyd i'w rhieni am eu cefnogaeth dros yr wythnosau o baratoi a fu cyn perfformio.'

Llun: Dewi Wyn

Ein Aelod Seneddol newydd - un o hogia'r dre



Llun: Dewi Wyn

Wythnos wedi ei ethol i'r Senedd, mae Hywel Williams, sydd o Bwllheli yn wreiddiol, wedi dechrau ar ei waith fel Aelod Seneddol etholaeth Caernarfon. 'Diolch i bob un a roddodd bleidlais i mi yn yr etholiad ac i bawb a fu'n gweithio mor ddyfal yn yr ymgyrch,' meddai. 'Mae'n anrhydedd o'r mwyaf cael cynrychioli fy mro enedigol yn San Steffan. Edrychaf ymlaen at weithio er lles holl bobol yr ardal yn y Senedd.'

Byw yn y Wlad

Mae'r diwylliant Cymreig wedi ffynnu yn yr ardaloedd gwledig, amaethyddol. Mae'r diwydiant amaeth ar hyn o bryd yn wynebu argyfwng, felly mae'r diwylliant Cymreig mewn argyfwng hefyd. Gyda thai a bythynnod ar hyd a lled penrhyn Llŷn ar werth am ~100,000 a £150,000 maent, yn amlwg, wedi'u hanelu at farchnad y tu allan i'r ardal. Sut felly y gall bobl leol aros yma i fyw? Os ydyn nhw yn symud oddi yma, sut gall y diwylliant Cymreig a'r iaith Gymraeg fyw?

'Byw yn y wlad - cynnal, gwarchod a datblygu ein cymunedau.'

Dyna fydd teitl cynhadledd a gynhelir gan Gyngor Gwynedd ar Orffennaf 13. Y nod yw 'Ceisio cefnogaeth i nifer cyfyngedig o gynigion a allai fod yn sail ar gyfer ffurfio polisi iau gwledig yn ystod y misoedd a'r blynyddoedd nesaf.'

Mae llawer o waith da yn mynd ymlaen yng nghefn gwlad ond dirywio mae ein cymunedau ac, yn sgîl Clwy'r Traed a'r Genau, mae perygl mai cyflymu wnaiff y dirywiad hwn. Ceisio mynd i'r afael â rhai o'r materion sylfaenol hyn fydd y gynhadledd. Bydd y ffocws ar faterion economaidd a thai, ac oblygiadau'r newidiadau yn y meysydd hyn i'r iaith a'r diwylliant.

Nid problemau sy'n unigryw i Llŷn a Gwynedd ydi'r rhain, ac yn ystod y gynhadledd bydd cyfle i ddyysgu am brofiadau cymunedau tebyg yn yr Alban ac Iwerddau.

Yn ystod y dydd bydd anerchiadau gan Yr Athro Dylan Jones Evans, Athro Menter a Pholisi Rhanbarthol, Coleg Prifysgol Cymru Bangor; Dr Dylan Phillips o Adran Canolfannau Uwchegydiau Cymreig a Cheltaidd, Prifysgol Cymru Aberystwyth, ac Andrew Prendergast o Asiantaeth Datblygu Skye & Lochalsh yn yr Alban. Ond bydd y pwyslais ar drafod syniadau a chwblhau rhestr o gynigion.

I gofrestru ar gyfer y gynhadledd ffoniwch (01286) 679004.



Yn y llun mae Marti, un o'r 'Pinc Ledis' yn rhoi'r 'TBirds' yn eu lle. O'r chwith i'r dde: Idan Williams (Kenichie), Siôn Pritchard (Sonny), Manon Elis (Marti) a Caraid Wyn (Jan).